**Ref: EUR-02-00(cof)**

**Pwyllgor Materion Ewropeaidd**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 8 Mehefin 2000 | |
| **Amser:** | 13.15pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1 | |
| **Yn Bresennol:** | **Aelodau** | |
| | Christine Gwyther (Cadeirydd Dros Dro) | Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| | Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol: Sir Drefaldwyn |
| | Delyth Evans | Llafur: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| | Val Feld | Llafur: Dwyrain Abertawe |
| | Alun Pugh | Llafur: Gorllewin Clwyd |
| | Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Caerfyrddin a Dwyrain Dinefwr |
| | Phil Williams | Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru |
| | | |
| | Jill Evans | ASE |
| | Catherine Eva | Pennaeth Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |
| | | |
| | **Swyddogion** | |
| | Hugh Rawlings | Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd |
| | Caroline Turner | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd |
| | Philip Bird | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd |
| | Margaret Evans | Pennaeth yr Is-adran Rheoli Personél |

| | |
|---|---|
| Chris Tudor | Yr Is-adran Rheoli Personél |
| Des Clifford | Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel |
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rhodri Morgan, Nicholas Bourne, Jonathan Morgan, Jocelyn Davies; Brian Smith, George Wright, Rose D'Sa; a Jonathan Evans, Eluned Morgan a Glenys Kinnock, ASE.

Am fod y Cadeirydd yn absennol ar fusnes y Cynulliad yn New South Wales, cytunodd y Pwyllgor i benodi Christine Gwyther fel Cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod hwn.

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**
**Papur:** EUR-02-00(p.1)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Delyth Evans i'w chyfarfod cyntaf fel aelod o'r Pwyllgor.

1.2 Dywedodd y Cadeirydd bod adroddiad y Cadeirydd yn cwmpasu nifer o faterion, ac efallai'r un mwyaf arwyddocáol oedd sefydlu Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel yn ddiweddar. Dywedodd Des Clifford, Pennaeth y Swyddfa, ei fod wedi dechrau ar ei swydd yr wythnos flaenorol a'i fod ar hyn o bryd yn ystyried sut i weithio'n fwyaf effeithiol gyda Chanolfan Cymru yn Ewrop (WEC) a Chynrychiolaeth Barhaol y DU i'r Undeb Ewropeaidd (UKRep). Cytunodd yr aelodau ar argymhelliad i'w wahodd i fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol er mwyn adrodd yn ôl ar holl agweddau ei waith.

1.3 Amlygodd y Cadeirydd pa mor bwysig yr oedd i'r Ysgrifenyddion Cynulliad fynychu cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion ym Mrwsel nid yn unig am mai dyma lle y gwneir penderfyniadau sy'n effeithio ar Gymru ond hefyd er mwyn codi proffil Cymru.

1.4 Mynegwyd pryderon ynglŷn â pharagraff 3 o'r adroddiad yn ymwneud â defnyddio pleidlais y Cynulliad yng Nghyfarfodydd Cyffredinol WEC; dylid sefydlu trefniadau i sicrhau bod barn pob plaid yn cael eu canfod cyn bod y Prif Ysgrifenydd yn rhoi pleidlais y Cynulliad. Dywedodd y Cadeirydd y byddai Prif Ysgrifenydd yn ceisio cynrychioli barn y Cynulliad llawn bob amser ond cytunodd y dylid ystyried y broses o ystyried barn pob plaid ymhellach. Gofynnodd i swyddogion baratoi cynigion ynglŷn â'r ffordd y gellid cyflawni hyn er mwyn i'r Pwyllgor ei ystyried yn ei gyfarfod nesaf.

**Eitem 2 ar yr Agenda: INTERREG**
**Papur:** EUR-02-00(p.2)

2.1 Roedd y papur yn darparu gwybodaeth ynglŷn â Menter Gymunedol INTERREG a oedd yn arbennig o bwysig i'r berthynas ehangach rhwng Cymru ac Iwerddon. Esboniodd Philip Bird bod rhaglen Cymru –

Iwerddon yn cael ei hystyried yn llwyddiant yn y ddwy wlad a chafodd ei dyfynnu gan y Comisiwn fel enghraifft o arfer da a phrojectau arloesol. Byddai cyfle i ehangu a gwella projectau o'r fath o dan INTERREG IIIA. Byddai projectau o dan Linyn B yn gofyn am gyfranogiad dwy aelod-wladwriaeth yn hytrach na thair fel y credwyd yn wreiddiol. Disgwylir eglurhad ar ariannu gan yr Adran Diwydiant a Masnach yn fuan.

2.2 Byddai proses ymgynghorol y Cynulliad ar y rhaglen newydd, a oedd yn ceisio cyfranogiad cryf gan SMES a chynnwys datblygu gwledig cryf gan SMEs, yn dod i ben ar 9 Mehefin. Byddai grŵp partneriaeth i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cyfarfod ar 22 Mehefin. Cynigiwyd aelodau o'r grŵp partneriaeth gan sefydliadau ymbarél megis WLGA, WDA a Bwrdd Croeso Cymru, dau sefydliad sector preifat ac eraill. Nid oedd y Gwyddelod wedi ymgynghori ond byddent yn cynnal cyfres o seminarau, a byddai ef yn mynychu un ohonynt ar 19 Mehefin.

2.3 Wrth drafod, codwyd y pwyntiau canlynol:

- o dan INTERREG II, dyrannwyd mwy o arian i'r partneriaid Gwyddelig nag yng Nghymru. Roedd y Gwyddelod wedi cymryd 98% o'u cyfran, ond 78% yn unig o'u cyfran hwy a ddefnyddiodd partneriaid Cymru. Byddai ymarferiad cyhoeddusrwydd llawn yn cael ei gynnal er mwyn cynyddu cyfran y cronfeydd a ddefnyddiwyd gan Gymru ar gyfer y rhaglen newydd;
- byddai'r arian gan yr UE yn amodol ar arian cyfatebol ac felly gallai cyllideb gyffredinol y rhaglen ddyblu;
- cafwyd oedi wrth ddechrau'r rhaglen am mai dim ond yn ddiweddar y cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd y Canllawiau ar gyfer y rhaglen;
- roedd yr ardaloedd cymwys ar gyfer INTERREG II yng Nghymru yn ardal rhaglen Amcan 5b yn bennaf. Mae'r un ardal yn dal yn gymwys o dan INTERREG III, ond bydd yr ardal hon nawr yn gymwys o dan Amcan 1 ac felly hwyrach y bydd projectau yn gymwys ar gyfer cyfradd ymyrraeth uwch. Byddai cyfatebiaeth â phrojectau Amcan 1 yn un o'r ystyriaethau wrth gytuno i ariannu projectau;
- o dan reolau cyfagosrwydd y rhaglen, roedd Coleg Llandrillo yn debygol o fod yn gymwys i gyflwyno ceisiadau ar gyfer ariannu.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Secondiadau**
**Papur:** EUR-02-00(p.3)

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon trwy ddweud bod y Pwyllgor yn awyddus i staff y Cynulliad gymryd swyddi mewn sefydliadau Ewropeaidd fel bod gwell cynrychiolaeth gan Gymru a'i bod yn cael mwy o wybodaeth am ddatblygiadau yn yr UE ac y gallent ddod â'r profiad hwnnw yn ôl i'r Cynulliad. Gwahoddodd Margaret Evans i hysbysu'r Pwyllgor am y gwaith oedd yn cael ei wneud i annog secondiadau.

3.2 Dywedodd Ms Evans fod yr Is-adran Rheoli Personél wedi cymryd camau i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar gyfleoedd secondio yn amserol ac yn cael cyhoeddusrwydd da. Ffurfiwyd cofrestr o staff y Cynulliad y gallai fod ganddynt ddiddordeb mewn derbyn secondiadau a chymerwyd camau i sicrhau bod y mecanweithiau cymorth cywir yn eu lle. Roedd y rhain yn cynnwys: ymweliadau ymlaen llaw i Frwsel; ymlyniadau; cyrsiau hyfforddi, yn enwedig hyfforddiant ieithyddol; aseiniadau tymor byr i Is-adrannau priodol y Cynulliad; pecyn ariannol priodol; a threfniadau ar gyfer dychwelyd i'r Cynulliad ar ddiwedd y secondiad. Roedd ymagwedd llawer mwy strategol i'r broses o secondio yn cael ei sefydlu gyda chyllidebau a thargedau

penodol a rhaglen dreigl o bobl ar secondiad.

3.3 Holodd yr aelodau a oedd y targed o 3 secondiad yn 2000-2001 gan ddatblygu i 6 yn 2003 yn ddigon uchel a gofynnwyd sut oedd hyn yn cymharu â gwledydd eraill. Dywedodd Margaret Evans fod hwn yn fan cychwyn ac y byddai'n bosibl cynyddu'r niferoedd yn y dyfodol os byddai'r cynlluniau presennol yn llwyddiannus. Roedd y gyllideb ar gyfer secondiadau eisoes wedi dyblu o ganlyniad i'r pwysigrwydd yr oedd y Pwyllgor yn ei roi ar secondiadau. Dywedodd Caroline Turner gan nad oedd Cymru yn aelod-wladwriaeth ei hun, byddai'n anodd cymharu nifer y bobl ar secondiad gyda gwledydd megis Iwerddon ar sail gymharol. Roedd gan Gymru'r fantais o allu secondio staff i Swyddfa'r Cynulliad a'r WEC, a oedd wedi cael blaenoriaeth hyn yn hyd eleni.

3.4 Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn ag a oedd cynlluniau i ddod â phobl ar secondiad o sefydliadau Ewropeaidd i'r Cynulliad, dywedodd Margaret Evans mai'r trefniant arferol oedd i'r rhiant gyflogwr dalu costau eu staff ar secondiad. Byddai system 'dwy ffordd' yn ddymunol fel amcan tymor hir.

3.5 Nod y rhaglen oedd dod â manteision i'r Cynulliad a hefyd galluogi unigolion i feithrin sgiliau i ddatblygu eu gyrfa hwy. Ar hyn o bryd roedd y rhaglen ar gyfer gweision sifil y Cynulliad yn unig gan ddefnyddio cyllideb secondiad a neilltuwyd yng nghostau rhedeg y Cynulliad. Ni ystyriwyd cynnwys staff cyrff cyhoeddus eraill. Dywedodd Hugh Rawling os oedd y Pwyllgor yn dymuno cymryd yr ymagwedd hon, byddai'n rhaid gwneud cais ar wahân ar gyfer arian o gyllideb rhaglen yn y cylch cyllido nesaf. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd gomisiynu papur os byddai angen. Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd gael ei gyllideb ei hun i'w alluogi i gyflawni'r gweithgareddau yr oedd yn dymuno eu dilyn. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n rhaid i'r Cynulliad gymeradwyo cam o'r fath.

3.6 Dywedodd Catherine Eva bod un o swyddogion y Cynulliad ar fin cael ei secondio i'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. Ei rôl fyddai tynnu sylw Penaethiaid Is-adrannau'r Cynulliad a swyddogion pleidiau gwleidyddol yn y Cynulliad i ddatblygiadau o fewn y Comisiwn ac ymateb i anghenion Aelodau. Wrth gyflawni hyn byddai'n gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel, y WEC ac Is-adran Materion Ewropeaidd y Cynulliad.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Cyfranogiad Cymru mewn Sefydliadau Ewropeaidd**
**Papur:** EUR-02-00(p.4)

4.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen i gyfranogiad y Cynulliad mewn sefydliadau Ewropeaidd adlewyrchu bodolaeth Swyddfa'r Cynulliad a dod yn aelod o'r WEC. Byddai gan Gymru ddau aelod llawn a dau gynrychiolydd eiledol ar y Pwyllgor Rhanbarthau (CoR), sef un o sefydliadau'r UE; ac un aelod llawn ac aelod eiledol ar y Gyngres Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol (CLRAE), a oedd yn rhan o Gyngor Ewrop.

4.2 Grwpiau anffurfiol oedd y Cynulliad Rhanbarthau Ewropeaidd (AER) a Chynhadledd y Rhanbarthau Morwrol Ymylol (CPMR) a ffurfiwyd yn y 1970au a'r 1980au cyn i'r UE a Chyngor Ewrop greu eu cyrff cynrychioliadol lleol a rhanbarthol eu hunain. Er eu bod yn gyfle i rwydweithio, roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) wedi tynnu yn ôl o'r ddau yn ddiweddar am eu bod o'r farn nad oeddent bellach yn elwa o'u haelodaeth. Roedd posibilrwydd y byddai'r Cynulliad yn cael gwahoddiad i ymuno yn ei lle ac argymhellwyd y dylai'r Cynulliad ganolbwyntio ar y CoR a'r CLRAE yn hytrach nag ymuno â'r ddau gorff arall.

4.3 Mynegodd Phil Williams a Jill Evans bryderon am nad oedd gan Gymru lais yn AER a CPMR. Fel cyn aelod o'r CoR, roedd Jill Evans o'r farn nad oedd yn effeithiol. Nid oedd ganddo unrhyw berthynas ffurfiol gyda Senedd Ewrop er bod lle i'r ddau gorff weithio mewn partneriaeth. Roedd y CoR yn cynnwys enwebedigion o'r llywodraeth, nad oeddent oll wedi eu dethol yn ddemocrataidd. Ar y llaw arall, darparodd yr AER gyfle i'r aelodau rwydweithio ac fe'i ffurfiwyd oherwydd yr angen am y math hwnnw o rwydweithio yn y system Ewropeaidd. Roedd yn cynnwys aelodau cyffredin a phobl proffil uchel megis Jordi Pujol, Arlywydd Catalonia, ac roedd parch mawr iddo fel corff. Cynhyrchodd llawer o ddeunydd a chynhaliodd sawl cynhadledd ac ati ac felly, hyd yn oed os nad oedd y Cynulliad yn gysylltiedig ag ef, dylai fonitro'r hyn a wneir ganddo. Nododd yr Aelodau bod Senedd yr Alban wedi penderfynu monitro sut roedd yr AER a'r CPMR yn gweithredu cyn penderfynu ymuno ai peidio.

4.4 Cynigiodd y Cadeirydd y dylai swyddogion fynychu rhai o gyfarfodydd yr AER a'r CPMR fel arsylwyr gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. Cytunodd yr aelodau â chynnig Jill Evans hefyd y dylid gwahodd aelodau Cymreig y CoR ac ASE i ystyried ffyrdd o gydweithio.

**Eitem 5 ar yr Agenda: Dylanwadu ar Bolisïau'r Undeb Ewropeaidd**
**Papur:** EUR-02-00(p.5) ac EUR-02-00(p.6)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor â chynnig y Cadeirydd i ystyried eitemau 5 a 6 gyda'i gilydd am eu bod yn rhyngberthnasol. Roedd papur 5 yn nodi cynigion ar gyfer y ffordd y gallai'r Cynulliad ystyried a dylanwadu ar bolisïau Ewropeaidd a chynigion deddfwriaethol. Roedd papur 6 yn disgrifio'r prosesau a ddefnyddiwyd i archwilio polisïau a ddeddfwriaeth yr UE yn San Steffan a Senedd yr Alban. Roedd Blaenraglen Waith ddrafft y Pwyllgor (papur 7) yn adlewyrchu'r cynnig ym mharagraff 5.7 o bapur 5 y dylai'r Pwyllgor ystyried polisïau a deddfwriaeth Ewropeaidd sydd ar ddod mewn dau gyfarfod y flwyddyn a chynnwys materion eraill yn ystod cyfarfodydd eraill.

5.2 Cyflwynodd Caroline Turner bapur 5 a oedd yn diffinio tri cham ym mhroses llunio polisïau'r Undeb Ewropeaidd – cyn-ddeddfwriaethol (anffurfiol); deddfwriaethol (ffurfiol); a gweithredu. Roedd angen i'r Pwyllgor fod yn glir pa gam yr oeddent am ddylanwadu arno. Gwnaed llawer o waith eisoes gan swyddogion yn y camau anffurfiol a ffurfiol na fyddai'r aelodau'n ymwybodol ohono. Roedd y pwyllgor eisoes wedi cychwyn cyfres o arolygon polisi'r UE i Ysgrifenyddion y Cynulliad a'r pwyllgorau pwnc eu hystyried. Ar wahân i Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, cyflwynwyd y rhain er gwybodaeth yng nghyfarfodydd y pwyllgorau pwnc ac ar y fewnrwyd. Roedd y WEC yn ddiweddar wedi cynhyrchu dadansoddiad o bolisïau'r UE ac wedi nodi blaenoriaethau. Yng ngoleuni'r mentrau hyn, roedd y papur yn cynnig y dylai'r Pwyllgor ystyried effaith rhaglenni gwaith y Comisiwn ar Gymru a blaenoriaethau Llywyddiaethau'r Undeb yn ffurfiol ddwywaith y flwyddyn a hysbysu'r Cynulliad am y canlyniad. Byddai presenoldeb ASE, aelodau'r ECOSOC a'r CoR yn eu galluogi i lywio'r drafodaeth a hysbysu'r aelodau am ddatblygiadau diweddar.

3. Ymwelodd swyddogion â Senedd yr Alban yn ddiweddar i drafod eu hymagwedd tuag at archwilio. Roedd ymagwedd wreiddiol y Senedd yn cynnwys proses drwyadl o archwilio a oedd safbwynt gan yr Alban ar holl bolisïau'r UE ond canfyddant nad oedd llawer o enghreifftiau lle'r oedd diddordeb Albanaidd penodol. Hyd yn oed pan oedd yn bodoli, ni fuont yn llwyddiannus iawn wrth ddylanwadu ar safbwynt y DU na'i Gweithgor. Roedd y system hefyd yn cymryd llawer iawn o amser heb lawer o effaith. Roeddent yn ailystyried eu gweithdrefnau i nodi blaenoriaethau ymlaen llaw. Hysbyswyd yr aelodau y gallai Cymru gael y 1200 dogfen a

gynhyrchwyd gan yr UE gan Whitehall, ynghyd â memoranda esboniadol y Llywodraeth, fel y mae Senedd yr Alban yn ei wneud. Y broblem oedd dod o hyd i’r staff i ddelio â’r dogfennau hynny. Roedd gan Bwyllgor Archwilio Ewropeaidd Tŷ’r Cyffredin 16 aelod o staff ac roedd 2 aelod a hanner o staff Pwyllgor Senedd yr Alban wedi gweld na ellid rheoli’r gwaith.

4. Wrth drafod, cododd yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- byddai sicrhau bod y pwyllgorau pwnc yn chwarae rhan lawn yn y broses o ystyried gwybodaeth o Ewrop yn anodd, hyd yn oed gyda chyngor gan y WEC. Byddai’n cymryd amser i ddatblygu safbwynt penodol i’r Cynulliad. Roedd angen i’r Pwyllgorau allu paratoi am yr hyn oedd yn debygol o ddod trwodd a mesur terfynau’r hyn y gallent ei wneud a dysgu sut i chwarae’r system.
- mae’n rhaid i Ysgrifennydd y Cynulliad sy’n mynychu’r Cyngor Gweinidogion ddilyn safbwynt y DU. Fodd bynnag, mae’n bosibl y gallai safbwynt Cymru fod yn wahanol i sefyllfa’r DU. Dywedodd y Cadeirydd bod barnau’r sefydliadau datganoledig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu safbwynt y DU. Drwy fynychu mwy o gyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion, gallai Ysgrifenyddion y Cynulliad sicrhau bod y safbwynt yn cael ei gyflwyno.
- dylid cynrychioli Cymru yn well mewn gweithgorau ym Mrwsel lle byddai cyfle i ddylanwadu ar bolisïau wrth iddynt gael eu datblygu. Nodwyd bod dirprwyaethau fel arfer yn fach a’r trafodaethau’n canolbwyntio ar fanylion technegol iawn. Bu’r Cynulliad yn llwyddiannus iawn mewn trafodaethau dwyochrog ar gronfeydd strwythurol. Roedd UKRep wedi dynodi y byddent yn croesawu mwy o gyfranogiad gan y Cynulliad ar y lefel hon.
- byddai swyddogion mewn is-adrannau polisi yn gyswllt hanfodol wrth ddod yn ymwybodol o Gyfarwyddebau Ewropeaidd yn eu hardaloedd hwy a thynnu sylw Ysgrifenyddion a Phwyllgorau’r Cynulliad atynt.
- roedd pob aelod o’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd hefyd yn aelodau o bwyllgorau pwnc. Gallent amlygu’r dimensiwn Ewropeaidd yn y pwyllgorau hynny er mwyn codi proffil cyffredinol Ewrop.
- awgrymwyd y gallai’r Cynulliad ystyried creu newyddlen tebyg i’r un a grëwyd gan Bwyllgor Ewropeaidd Senedd yr Alban. Gallai hyn weithredu fel pwynt cyswllt cyntaf i Aelodau a swyddogion y Cynulliad a hefyd godi proffil Ewrop i’r cyhoedd. Fodd bynnag, nodwyd bod Pwyllgor yr Alban yn gweithio mewn ffordd dra gwahanol a bod ei gylch gorchwyl yn wahanol iawn. Roedd llawer o’r wybodaeth yn y newyddlen ar gael mewn fforymau eraill. Roedd gwefan WEC yn ddefnyddiol iawn ac adnewyddwyd gwefan mewnrwyd y Cynulliad yn ddiweddar. Rhestrwyd safleoedd a ffynonellau eraill o dan eitem 7 ar yr agenda.
- gallai strwythur rheoli clir hwyluso llif effeithiol gwybodaeth. Gallai hyn gynnwys enwebu swyddog unigol i fod yn gyfrifol am faterion Ewropeaidd ym mhob Is-adran. Hysbyswyd yr aelodau bod rôl o’r fath eisoes yn bodoli o fewn Is-adrannau i raddau mwy neu lai yn dibynnu ar y graddau yr oedd yr UE yn gwrthdaro â’u cyfrifoldebau polisi. Fodd bynnag, byddai’n bosibl i’r swyddogion hyn gysylltu’n fwy ffurfiol.

5.5 Cytunodd yr aelodau bod angen trafodaeth bellach ar rôl y Pwyllgor a mecanweithiau’r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag Ewrop. Awgrymwyd y gallai’r grwpiau gwleidyddol gwahanol baratoi papur yr un yn amlinellu eu barn fel y gallai’r Pwyllgor ystyried sut i fynd yn ei flaen. Cytunodd y Cadeirydd bod hwn yn awgrym defnyddiol a gwahoddodd pob aelod i gynhyrchu papur fel y gallai’r Pwyllgor ddychwelyd at y pwnc. Yn y cyfamser, cytunodd yr aelodau ar bob un o’r argymhellion ym mhapur 5.

5.6 Hysbysodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai’r drafodaeth flynyddol ar faterion yn ymwneud â’r UE yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Mehefin. Byddai adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn llywio’r drafodaeth

honno. Byddai drafft yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau gael ei ystyried maes o law.

**Eitem 6 ar yr Agenda: Arolwg o waith y Pwyllgor hyd yn hyn ac Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor**
**Papurau:** EUR-02-00(p.7)

6.1 Ystyriwyd yr eitem hon ar y cyd ag eitem 5 uchod.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Ffynonellau Gwybodaeth ar faterion yr UE**
**Papur:** EUR-02-00(p.8)

7.1 Rhoddodd yr eitem hon ffynonellau gwybodaeth ar bob mater yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd i'r Pwyllgor. Roedd Catherine Eva hefyd wedi darparu copi o Gyfeirlyfr y Comisiwn Ewropeaidd ar Wybodaeth Ewropeaidd yng Nghymru i'r aelodau. Dywedodd y byddai'n bosibl darparu gwybodaeth ar-lein gan ddefnyddio rhwydwaith o ddarparwyr gwybodaeth cyn hir. Ni fyddai Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru yn ffynhonnell gwybodaeth ynddi'i hun bellach, am mai ei rôl yn y dyfodol fyddai delio â "pholisi, gwleidyddiaeth a'r wasg". Fodd bynnag, roedd trafodaethau parhaus yn mynd rhyngddynt ar bosibilrwydd lleoli'r Pwynt Gwybodaeth Ewropeaidd, yn swyddfa'r Comisiwn yn Heol y Gadeirlan ar hyn o bryd, yn agos i'r Cynulliad. Mewn ymateb i ymholiad, esboniodd Catherine Eva na fyddai gorgyffwrdd rhwng Gwasanaeth Gwybodaeth Ewropeaidd Prifysgol Caerdydd a'r Pwynt Gwybodaeth Ewropeaidd am eu bod wedi eu hanelu at gynulleidfaoedd gwahanol, ond hwyrach y byddai goblygiadau ariannol tymor hwy i'r Cynulliad pe gwnaed hyn.

**Eitem 8 ar yr Agenda: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**
**Papur:** EUR-01-00(min)

8.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

- dylai paragraffau 1.4 adlewyrchu bod holl bapurau'r cyfarfod wedi eu darparu er gwybodaeth i'r Pwyllgor yn hytrach nag iddynt benderfynu arnynt;
- a dylai paragraff 2.3 gynnwys y ffaith bod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau Cymru gyda Four Motor a rhanbarthau eraill byd-eang yn fach a'i bod yn bwysig cynyddu eu heffaith i'r eithaf.

8.2 Daeth y cyfarfod i ben am 15.40pm.